

6. CYFRANIAD HYFFORDDIANT YMWYBYDDIAETH AM YR IAITH GYMRAEG AT GYNLLUNIO IEITHYDDOL A'R BROSES O GREU CYMRU NEWYDD

Steve Eaves

CRYNODEB

Mae'r erthygl hon yn ystyried natur a datblygiad hyfforddiant ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg (HYIG) yng Nghymru ac yn trafod ei botensial am gyfrannu'n sylweddol at sawl agwedd ar gynllunio ieithyddol i adfywio a hybu defnydd y Gymraeg. Mae'r awdur yn ystyried yn gyntaf rai diffiniadau o ymwybyddiaeth iaith (language awareness) yn gyffredinol. Yna trafodir hyfforddiant ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg a ddatblygwyd ac a ddarparwyd i gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Disgrifir rhai elfennau o 'ymwybyddiaeth feirniadol' a ddefnyddir mewn modelau hyfforddiant cyfredol i hwyluso gweithrediad cynlluniau iaith. Trafodir wedyn rai syniadau am bwysigrwydd allweddol ymwybyddiaeth iaith i wireddu 'Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru Ddwyieithog'. Cloir yr erthygl drwy ystyried yn fras y syniad o hyrwyddo ymwybyddiaeth iaith fel modd i agor disgwrs ar y Gymraeg trwy'r gymdeithas sifil yng Nghymru, fel rhan o'r hyn a elwir gan rai sylwebwyr yn ddatblygiad hunaniaeth ôl-drefedigaethol yng Nghymru.

CYFLWYNIAD

Mae datblygiad hyfforddiant ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg (*Welsh-language awareness training*) fel y'i trafodir yma yn faes cymharol newydd o hyd yng Nghymru. O'r herwydd mae prinder ffynonellau ymchwil ar fethodolegau a deilliannau'r math hwn o hyfforddiant. Yn yr erthygl hon mae'r awdur yn cyfrannu o'i brofiad ei hun a phrofiad Cwmni Iaith ac ymarferwyr eraill o

ddarparu hyfforddiant o'r fath fel modd i hwyluso gweithredu polisïau iaith cyrff cyhoeddus. Mae'r erthygl yn defnyddio hefyd amryw o ffynonellau eilaidd yn ogystal â gwerthusiadau gwreiddiol o ymatebion cleientiaid a hyfforddeion i fethodolegau a sesiynau hyfforddiant o'r fath.

Man cychwyn defnyddiol ar gyfer y drafodaeth hon yw ystyried yn fras rai diffiniadau cyffredinol o ymwybyddiaeth iaith. Mae'n eglur o'r llenyddiaeth ar y pwnc hwn fod yr hyn a olygir wrth ymwybyddiaeth iaith yn wahanol i hyfforddiant dysgu iaith. Gall ymwybyddiaeth am iaith gael ei defnyddio fel modd i hwyluso a chyfoethogi'r broses o gaffael a defnyddio iaith. Fodd bynnag, ei phrif bwrpas yw dadansoddi a deall y llu o agweddau cymdeithasol-ieithyddol, diwylliannol a hanesyddol sydd ynglŷn ag iaith. Ceir crynodeb defnyddiol gan Baker a Jones (1998, t. 628–34) o'r syniadau am ymwybyddiaeth iaith. Maent yn dyfynnu'r diffiniad cyffredinol gan Donmall: 'Language awareness is a person's sensitivity to and conscious awareness of language and its role in human life' (1985, t. 7). Ychwanega Baker a Jones, 'Language awareness involves reflection about languages, encouraging curiosity about language itself, an exploration of language, and the raising of implicit knowledge about language to a conscious, explicit level' (1998, t. 628). Yna, ymhelaetha'r ddau awdur ar y syniadau hyn mewn dau is-bennod. Mae'r naill yn canolbwyntio ar 'wybodaeth ynghylch iaith' (*'knowledge about language'*) a'r llall yn trafod 'ymwybyddiaeth feirniadol o iaith' (*'a critical awareness of language'*).

Yn ôl Baker a Jones, mae'r math olaf o ymwybyddiaeth, sef 'ymwybyddiaeth feirniadol o iaith', yn ymwneud â 'how languages or styles of language reflect and sustain differences in power and status' (1998, t. 633). Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth gwrs i'r rhai sy'n ymddiddori yn nyfodol ieithoedd lleiafrifol, yn enwedig ieithoedd iselfri. Bydd meithrin ymwybyddiaeth feirniadol o iaith yn golygu dadansoddi, cwestiynu a herio'r anghyfartaledd o ran y statws, bri a grym a gysylltir â gwahanol ieithoedd ac – yn bwysicach – y statws, bri a grym a gysylltir â'u siaradwyr.

Yn y cyswllt hwn, felly, offeryn grymuso pobl yw ymwybyddiaeth feirniadol o iaith, fel y'i disgrifir gan Baker a Jones:

It may be important for people to become critically aware of their own values with regard to languages, any conflicts in those values, and importantly, to become aware that language used by higher status groups can be patronising, demeaning, disrespectful, offensive and exclusive. Language minorities are labelled, patronized, excluded, distanced and devalued by language majority groups. Critical language awareness can give someone self-assurance in how, when, where and with whom they use their one, two or more languages. A bilingual may thus feel confident and safe enough to challenge the present power structures and differences in status that are marked by language (1998, t. 634).

HYFFORDDIANT YMWYBYDDIAETH AM YR IAITH GYMRAEG (HYIG) O FEWN CYRFF SY’N GWEITHREDU CYNLLUNIAU IAITH GYMRAEG

A derbyn y gall ymwybyddiaeth feirniadol o iaith fod yn fodd i ddeall a herio'r berthynas rhwng ieithoedd a'i gilydd o ran eu grym a'u statws, hawdd deall sut mae hyn wedi dod yn fater arbennig o berthnasol er pan basiwyd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Yn ôl y ddeddf hon, 'wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal' (HMSO, 1993, rhan 1, adran 3 (2) (b)). Deddfwyd felly fod dwy iaith a fu am ganrifoedd yn anghyfartal eu statws a'u bri i'w trin o hynny ymlaen gan gyrff cyhoeddus a chan y system gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru 'ar y sail eu bod yn gyfartal'. Roedd hyn yn newid sylweddol iawn mewn polisi cyhoeddus ar yr iaith Gymraeg. Bu'n rhaid i sefydliadau yn y sectorau hyn fynd i'r afael am y tro cyntaf erioed â'r dasg o gynllunio ar gyfer gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol wrth ddarparu eu gwasanaethau i'r cyhoedd. I'r perwyl hwnnw, daeth yn ofynnol iddynt baratoi cynlluniau iaith Gymraeg, i'w cymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, yn dangos sut y byddent yn gwneud hynny yn ymarferol. Ers 1996 mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo yn agos i 350 o gynlluniau o'r fath.

Wrth i sefydliadau wynebu'r dasg o lunio a gweithredu cynlluniau iaith statudol, amlygwyd yr angen iddynt ailfeddwl a diwygio'r hen batrymau ymddygiad tuag at y Gymraeg, mathau o ymddygiad a oedd wedi hen ymsefydlu ym mhob agwedd o'u cyswllt â'r cyhoedd ac ym mhob gwasanaeth a ddarperid i'r cyhoedd. Hyd at ddegawdau canol yr ugeinfed ganrif roedd y Gymraeg wedi ei chau allan o gylchoedd swyddogol ac o'r system gyfreithiol ers dros 400 mlynedd gan ddeddf gwlad, hynny yw, gan 'gymal iaith' Deddf Uno 1536.¹ Bu tuedd eisoes ar waith cyn y ddeddf honno, tuedd a gryfhawyd yn sylweddol gan y ddeddf, i siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg yng Nghymru etifeddu peuoedd defnydd iaith (*language-use domains*) a gysylltai defnydd y Saesneg fwyfwy â pheuoedd uchelfri megis y llywodraeth, y gyfraith, gweinyddiaeth gyhoeddus, masnach ac addysg, a defnydd y Gymraeg â pheuoedd iselfri megis y cartref, y gymuned a'r gweithle (gw. G. H. Jenkins, 1997). Yn wyneb y sefyllfa hanesyddol hon a hen arferiad cyrff swyddogol yng Nghymru o ddefnyddio'r Saesneg yn unig i gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder, y mae gofyniad Deddf 1993 i gyrff cyhoeddus 'drin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal' yn gryn her iddynt.

O fewn cyrff sy'n gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg statudol, buom yn gweithio gyda llawer o reolwyr a staff ar hyd a lled Cymru. Roedd y mwyafrif

ohonynt heb ymwneud dim neu fawr ddim erioed â'r iaith Gymraeg mewn sefyllfaoedd gwaith o'r blaen, cyn gweithredu cynllun iaith. Gyda rhai eithriadau prin, mae'r mwyafrif ohonynt yn gweithredu mewn peuoedd gwaith lle gynt y defnyddid Saesneg yn unig. Buom yn cyfarfod ag amryw a chanddynt byderon neu ansicrwydd ynghylch y syniad o arddel dwyieithrwydd yn eu sefyllfaoedd gwaith. Yn ein profiad ni, yn aml iawn gall hyn fod yr un mor wir am lawer o siaradwyr Cymraeg ag ydyw am y di-Gymraeg. Mae aelodau o'r ddwy garfan wedi hen arfer â'u peuoedd, eu codau a'u cyweiriau defnydd iaith. Oherwydd y prinder addysg uwch a hyfforddiant galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg, mae swyddogion proffesiynol yn y sector cyhoeddus, bron yn ddiethriad, wedi derbyn eu haddysg uwch a'u hyfforddiant galwedigaethol, ac wedi ennill eu hyder a'u statws proffesiynol drwy gyfrwng y Saesneg.² Yn yr un modd, mae'r rhan fwyaf helaeth o staff rheng flaen mewn sefyllfaoedd gwasanaethol wedi etifeddu traddodiad hirfaith o wasanaethu'r cyhoedd yn Saesneg yn unig. O'r herwydd, gall rhai staff Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd bônt yn rheolwyr, yn swyddogion proffesiynol neu'n staff rheng flaen, deimlo bod y broses o ddwyieithogi gwasanaethau a gweithleoedd yn herio'r hyder, yr awdurdod a'r statws a feddant yn Saesneg.

Mae hyn wedi esgor ar yr angen i weithwyr proffesiynol yn y maes iaith gydweithio â ddarparwyr gwasanaethau ar draws y sectorau cyhoeddus a chyfreithiol er mwyn 'rheoli'r newid' (a defnyddio term a berthyn i ieithwedd hyfforddi rheolwyr). Mae hyn yn cynnwys cyflwyno a meithrin yn ofalus y dulliau newydd o drin y Gymraeg mewn meysydd rheoli, a chynorthwyo i sefydlu arferion newydd a gweithdrefnau newydd ar gyfer swyddogion mewn sefyllfaoedd gwasanaethol a gweithleoedd eraill. Yn ogystal â derbyn cynghorion gan swyddogion Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ers canol y 1990au mae llawer o gyrff cyhoeddus wedi ychwanegu swydd swyddog iaith at eu strwythur staffio. Rôl y swydd yw eu cynghori ar oblygiadau Deddf 1993 ym maes polisïau, ac ar arfer dwyieithog da a gweithdrefnau ar gyfer gweithredu'r cynllun iaith. Mae rhai cyrff eraill wedi ychwanegu'r cyfan neu rai o'r cyfrifoldebau am y Gymraeg at ddyletswyddau swyddog polisi neu swyddog cydraddoldeb.

Erbyn hyn, mae nifer cymharol fach ond cynyddol o'r cyrff hyn wedi darparu HYIG i'w staff neu'n bwriadu ei ddarparu iddynt. Eu bwriad wrth wneud hynny yw cyfleu i'w staff ddealltwriaeth o'r polisïau, prosesau a gweithdrefnau sy'n ofynnol er mwyn gweithredu Cynllun Iaith. Wrth gyfathrebu â chyrrff sy'n gweithredu cynlluniau iaith, mae'n arferiad ers peth amser gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd i argymhell iddynt y dylid darparu HYIG i staff.

Yn ystod y cyfnod cymharol fyr ers 1993, mae nifer yr hyfforddwyr HYIG, yn ogystal â'r dulliau hyfforddi a'r deunyddiau hyfforddi sydd ar gael, wedi

datblygu mewn modd ‘organig’ wrth ymateb i anghenion cyrff sy’n gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg statudol.³ Rhai o’r arloeswyr blaenllaw ym maes datblygu deunyddiau hyfforddi yn ystod y 1990au oedd Siân Wyn Siencyn, Elaine Davies, Hywel Williams, Llinos Dafis a Gareth Ioan. Cyfrannodd pob un o’r rhain i’r maes o’i brofiad a’i bersbectif proffesiynol gwahanol ei hun.⁴

O gofio union natur yr angen a’r galw am HYIG yng Nghymru, a datblygiad yr hyfforddiant hyd yma, defnyddiol yw ailystyried y diffiniadau mwy cyffredinol o ymwybyddiaeth iaith a drafodwyd cynt a chynnig diffiniadau mwy penodol sy’n adlewyrchu’r sefyllfa yng Nghymru. Mewn arolwg o HYIG a gynhaliwyd ar ran ELWa yn 2004–5 defnyddiwyd y diffiniad eang a ganlyn: ‘Unrhyw weithgaredd strwythuredig, wedi ei drefnu yn benodol at bwrpas codi ymwybyddiaeth ynglŷn â dwyieithrwydd, ar gyfer y rhai sy’n gweithio neu’n byw yng Nghymru’ (Dafis et al., 2005, t. 6). Diffiniad arall a ddyfynnir yn yr arolwg i ELWa, ac un sydd wedi ei wreiddio mewn cymdeithaseg ieithyddol a seicoleg, yw’r diffiniad gweithiol o HYIG a gynigiwyd gan Gwmni Iaith ar ran Agwedd, cymdeithas i ymarferwyr HYIG, sef:

Yr hyn sydd ei angen er mwyn ymdeimlo, gwerthfawrogi a chanfod iaith fel ymddygiad cymdeithasol. Diben yr hyfforddiant, felly, yw amlygu sut mae agweddau a chanfyddiadau ynglŷn ag iaith yn effeithio a dylanwadu ar y berthynas rhwng pobl ar lefel sefydliadol ac ar lefel bersonol o fewn y gymdeithas (Dafis et al., 2005, t. 6).

Er mwyn ymateb yn uniongyrchol i union ofynion ac anghenion cyflogwyr, mae Cwmni Iaith (2004) wedi ymhelaethu ar y diffiniad uchod trwy atodi iddo ddisgrifiadau bras o’r tri math o hyfforddiant y gofynnir amdanynt amlaf gan y cyrff sy’n gleientiaid iddo:

- (i) *hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith* – sy’n delio yn bennaf â chyfleu gwybodaeth sylfaenol am y Gymraeg, am faterion ieithyddol ac am agweddau ac ymddygiad tuag at iaith;
- (ii) *hyfforddiant datblygu dwyieithrwydd* – sy’n delio â threfniadau gweinyddol a chefnogol er darparu gwasanaethau dwyieithog;
- (iii) *hyfforddiant arferion iaith* – sy’n delio â gweithdrefnau ymarferol ac arferion gwaith ynghyd â rhyngberthynas unigolion yn y gweithle ac sy’n hyrwyddo sensitifrwydd ac addasrwydd iaith (2004, t. 1).

Mae cydberthynas agos rhwng y tri maes hyn. Ym meddyliau’r mwyafrif o gyflogwyr sy’n holi am hyfforddiant, maent i gyd yn perthyn o dan yr un pennawd cyffredinol ‘hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith’. Serch hynny, gall gwahaniaethu rhyngddynt fod yn ddefnyddiol o ran cynorthwyo hyfforddwyr i gynllunio a thargedu’r union fathau o hyfforddiant y mae eu hangen ar gyrff

unigol. Byddai Cwmni Iaith yn dadlau y dylid sicrhau, wrth gyflwyno'r mathau hyn o hyfforddiant un ai yn unigol neu gyda'i gilydd, fod 'ymwybyddiaeth feirniadol o iaith' fel y'i disgrifir gan Baker a Jones yn elfen greiddiol iddynt i gyd – sef 'how languages or styles of language reflect and sustain differences in power and status' (1998, t, 633–4). Mae hyn yn arbennig o berthnasol i gyrff yn y sector cyhoeddus, sef cyrff y gellid ystyried bod eu staff yn ddarpar gyfranogwyr posibl o HYIG. Mae'r cyrff hyn bron yn ddieithriad, yn meddu ar rym ac awdurdod yn eu perthynas â'r cyhoedd. Yn eu plith ceir y cynghorau unedol, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau gofal; ymarferwyr gwasanaethau iechyd ac ymddiriedolaethau iechyd; awdurdodau addysg a chyrrff sy'n darparu addysg ôl-16 ac addysg uwch; asiantaethau datblygu economaidd; heddluoedd, cyrff gweinyddu cyfiawnder a gwasanaethau cynhaliol eraill; asiantaethau cyflogaeth a threthu a'r llw o gyrff llywodraethol neu all-lywodraethol y mae dinasyddion yn cyfathrebu â nhw yn rheolaidd neu'n achlysurol. Pan fydd y cyhoedd yn cyfathrebu â'r rhain, gwna hynny fel arfer er mwyn ceisio neu dderbyn rhyw fath o wasanaeth, cymorth, neu ddarpariaeth arall. Gall y ddarpariaeth a geisir gynnwys gofal iechydol neu ofal cymdeithasol; gwasanaeth plismona; budd-daliadau neu fathau eraill o gymhorthdal incwm; grantiau neu atgyweiriadau i dai; cyllid neu adnoddau eraill at fentrau cymunedol; caniatâd cynllunio ac yn y blaen. Gan y cyrff dan sylw y mae'r grym i benderfynu i ba raddau y byddant yn darparu, neu ddarparu'n rhannol neu wrthod darparu, yr hyn a geisir.

Mewn perthynas o'r fath, yn wyneb grym y cyrff swyddogol hyn, a chyda phwysau hanes a pheuoedd traddodiadol defnydd iaith yn eu herbyn, mae siaradwyr Cymraeg yn annhebygol iawn o fynnu neu ofyn am wasanaeth yn Gymraeg ganddynt. Mae'r seicolegydd a'r seicotherapydd Dilys Davies (2000, t. 37–41) wedi dadansoddi'r modd y mae canrifoedd o seicoleg negyddol parthed defnyddio'r Gymraeg wedi esgor ar nodweddion ôl-drefedigaethol megis 'tynghediaeth a llarieidd-dra, goddefolrwydd, ac ymdeimlad o israddoldeb a diffyg hyder' yn seici siaradwyr Cymraeg. Mae'r dadansoddiad hwn yn ein harwain i osod y drafodaeth am HYIG yng nghyd-destun ehangach damcaniaethau am ymdrin ag 'effeithiau seicolegol dominyddu' mewn cymdeithas ôl-drefedigaethol. Cyfeiria Davies at ddansoddiadau V. Kenny (1985), L. Greensale (1992), F. Fanon (1970) a P. Freire (1990) o effeithiau seicolegol dominyddu gwladychol diwylliannol ar y sawl sy'n dominyddu yn ogystal ag ar y sawl a ddominyddir. Gallwn gysylltu damcaniaethau'r ysgrifenydd hyn am ddulliau posibl o ymdrin ag effeithiau o'r fath yn uniongyrchol â dehongliad G. Williams a D. Morris (2000, t. 233–4) o nod cynllunio ieithyddol yng nghyd-destun y Gymraeg yng Nghymru, sef 'undoing the effect of hegemonic

discourses upon the population in general'. Trafodir hyn ymhellach yn adran olaf yr erthygl hon.

Gall y 'diffyg galw' ymddangosiadol sy'n deillio o'r nodweddion seicolegol a'r sefyllfa hanesyddol a ddisgrifir gan Davies (2000, t. 32–41) ddyfanwadu ar ganfyddiadau a gweithredoedd y sawl sy'n darparu gwasanaethau dwyieithog. Dichon na fydd darparwyr yn ymwybodol o'r cyd-destun hanesyddol hwn a pha mor amhriodol yw defnyddio'r cysyniad neo-ryddfrydol o 'alw gan gwsmeriaid' fel sail ar gyfer darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Mae'r ddadl am y diffyg galw am wasanaethau Cymraeg yn un a fynegir yn aml i Swyddogion Iaith gan rai o'u cyd-swyddogion mewn cyrff cyhoeddus.⁵ Hawdd deall sut y gall ddadl o'r fath ymddangos yn ddilys mewn diwylliannau corfforaethol sy'n tueddu i synio am ddefnyddwyr gwasanaethau fel 'cwsmeriaid' sy'n ymarfer 'dewis' ac yn 'creu galw'. Gall HYIG fod yn gyfrwng i gyflwyno gwrth-ddadleuon priodol a fydd o gymorth i egluro pam nad yw model y farchnad rydd o reidrwydd yn sicrhau defnydd ar wasanaethau a ddarperir yn statudol, na galw amdanant.

O ran targedu darpar gyfranogwyr HYIG o fewn cyrff cyhoeddus, mae profiad yn awgrymu'n gryf y dylai rhaglen hyfforddiant effeithiol ddechrau 'ar y brig' drwy hyfforddi uwchreolwyr y corff yn gyntaf. Bydd ymwybyddiaeth ac empathi rheolwyr ynghylch yr iaith – neu eu diffyg ymwybyddiaeth a diffyg empathi – yn cael eu hadlewyrchu yn yr agweddau a amlygant i staff eraill a faint o ymrwymiad a amlygir yn eu hymddygiad a'u gweithredoedd ar y lefel gorfforaethol ac ar lefel cynllunio gwasanaethau. O sylwi ar eu hagweddau a'u gweithredoedd, buan iawn y bydd eraill, yn rheolwyr canolradd, rheolwyr llinell a staff rheng flaen, yn synhwyro faint o wir fri a blaenoriaeth a roddir i'r Gymraeg a gweithredu dwyieithog o fewn y corff. O safbwynt ymarferol, yr uwchreolwyr fydd yn penderfynu ac yn awdurdodi – neu hwyrach yn esgeuloso – unrhyw drefniadau i gefnogi a chynnal gweithrediad cynllun iaith.⁶ O ran cynllun iaith corfforaethol, gall HYIG gyfrannu at sicrhau bod yna sylfaen wybodaeth gadarn i'r dewisiadau a'r penderfyniadau a wneir gan reolwyr ynghyd â dealltwriaeth o amcanion y cynllun ar y lefel strategol.

Wedi cyflwyno HYIG i uwch reolwyr, gallai'r canlyniadau a geisir trwy ddarparu HYIG i isreolwyr a staff rheng flaen sy'n gyfrifol am weithredu agweddau ar gynlluniau iaith gynnwys gwella dealltwriaeth o'r:

- berthynas rym rhwng y diwylliant Cymraeg a'r diwylliant Saesneg;
- pwrpas Deddf 1993 a'r cynllun iaith;
- newidiadau angenrheidiol yn y berthynas â'r cyhoedd Cymraeg neu ddefnyddwyr gwasanaethau Cymraeg;
- newidiadau angenrheidiol cyfatebol mewn arferion gwaith a gweithdrefnau.

Fodd bynnag, o safbwynt cynllunio iaith yn ei ystyr ehangach gellid tybio mai'r brif ystyriaeth yw fod HYIG yn fodd i gyfrannu at ehangu a dyfnhau disgwrs am yr iaith Gymraeg o fewn y gymdeithas sifil. Trafodwn hyn ymhellach maes o law.

Awgryma ein profiad ni, a'r ymatebion a ddyfynnir gan Rh. Dafis et al. (2005, t. 13–14) yn eu harolwg i ELWa, fod cryn niferoedd o staff a rheolwyr wedi derbyn HYIG ar ffurf cyfarwyddyd ymarferol mewn sesiynau briffio a/neu ganllawiau gweithredu. Bu hyn, yn aml iawn, ar sut i weithredu yn unol â gofynion Cynllun Iaith eu cyflogwr. Mae cyfarwyddyd o'r fath ar 'beth i'w wneud a sut i'w wneud o' yn bwysig iawn wrth gwrs, a gwelsom fod staff yn ei werthfawrogi. Prinnach, fe ymddengys, yw'r math o HYIG sy'n cyfleu ymwybyddiaeth feirniadol o iaith. Fodd bynnag, awgryma'r profiad o weithio gydag amrywiaeth eang o gyflogwyr ar hyd a lled Cymru a'r tu hwnt fod angen i staff ddeall mwy hefyd am y rhesymeg y tu ôl i'r cynllun iaith a'r ddeddf ei hun. Hynny yw, efallai nad yw hyfforddi staff am *sut* i weithredu'n ddwyieithog yn ddigon o gymhelliad iddynt wneud hynny'n effeithiol os na chânt gyfleoedd hefyd i ddeall *pam* y dylent wneud hynny. Dadleuwn ni fod ymwybyddiaeth feirniadol o berthnasau grym, seiliedig ar agweddau cymdeithasegol, hanesyddol a gwleidyddol fel a grybwyllwyd gynnau, yn elfen allweddol mewn meithrin dealltwriaeth o'r fath.

Sefyllfa gyffredin a nodweddiadol a ganfyddwn mewn cyrff cyhoeddus yw fel a ganlyn. Mae'r cyflogwr yn gweithredu cynllun iaith statudol a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r cyflogwr wedi hysbysu'r staff fod rhaid iddynt weithredu yn unol â mesurau'r cynllun ym mhob cyswllt a chyfathrebiaeth â'r cyhoedd. Hwyrach y bydd y rheolwyr a'r staff wedi cael eu cyfarwyddo ar y trefniadau ymarferol ar gyfer gweithredu'r mesurau hyn – hynny yw 'sut, pryd ac ymhle', a'r arfer da cysylltiedig. Yn amlach na heb, ni fydd y cyfarwyddiadau wedi cynnwys mwy nag eglurhad bras iawn, os o gwbl, am y materion mwy sylfaenol a all fod yn poeni staff. Er enghraifft,

- Pam dylem ni newid ein hen arferion effeithiol?
- Pam mae'r corff yn gweithredu cynllun iaith, a pham roedd angen Deddf Iaith yn y lle cyntaf?
- Beth yw'r syniadau a'r egwyddorion sydd y tu ôl i'r cynllun – a beth mae'n ceisio ei gyflawni?
- Pwy yn union ydi'r 'cyhoedd Cymraeg' bondigrybwyll y cyfeirir atynt mor aml mewn cynlluniau iaith fel darpar dderbynwyr ein gwasanaethau Cymraeg?
- Faint o gyfran o'r boblogaeth ydyn nhw yn rhanbarthol ac yn lleol, a ble maen nhw'n byw?

- Faint ohonyn nhw sy'n debygol o dderbyn gwasanaethau gan y corff hwn?
- Sut mae cyfiawnhau'r gost o weithredu'n ddwyieithog?
- Os yw'r Gymraeg yn hanfodol i rai swyddi, sut mae cysoni hynny â'r syniad o gyfleoedd cyfartal ym maes cyflogaeth a recriwtio?
- Sut mae hyn yn effeithio arnaf i yn bersonol a'm gyrfa yn y dyfodol? Yr hen gwestiwn sy'n corddi mor aml.
- Dyma gwestiynau digon dilys, ac o'n profiad ni maent weithiau'n adlewyrchu peth ansicrwydd a phryder am oblygiadau Deddf 1993 a diffyg gwybodaeth am faterion iaith yn gyffredinol ymhlith llawer o lafurlluoedd y sector cyhoeddus. Down yn ôl at y mater olaf eto.

Mae patrwm yr ymatebion a gafwyd i HYIG, ar ffurf sylwadau gan gyfranogwyr a chyflogwyr dros nifer o flynyddoedd, yn awgrymu y gall staff deimlo'n barotach i ymateb yn fwy positif ac yn fwy effeithiol i'r newidiadau a ddisgwylir ohonynt os cânt gyfle i godi'r materion hyn a'u trafod. Bydd rhai staff am herio priodoldeb a gwerth yr holl broses ddwyieithogi. Gellid dadlau y dylai fod ganddynt hawl i wneud hynny, a hawl i drafod y materion hyn a derbyn ymatebion priodol gan yr hyfforddwr a gan eu cyd-swyddogion. Gall HYIG fod yn fodd i drin a thrafod rhai o'r materion hyn mewn awyrgylch diogel a niwtral, drwy rannu efo cyfranogwyr gwybodaeth sylfaenol a safbwyntiau a fyddai fel arall yn annhebygol iawn o gael eu cyflwyno iddynt.

RHAI ELFENNAU 'YMWYBYDDIAETH FEIRNIADOL' MEWN MODELAU CYFREDOL O HYIG

Nodir isod nifer o elfennau allweddol a gynhwysir mewn modelau cyfredol o HYIG a ddefnyddir yn aml gan Gwmni Iaith, ynghyd â nodyn yn amlinellu'r rhesymeg dros gynnwys pob elfen. Wrth reswm, nid oes modd trafod pob un elfen ym mhob sesiwn HYIG. Ystyriwn fod yna rai elfennau craidd sy'n angenrheidiol fel arfer er mwyn gosod sylfaen wybodaeth ddigonol. Pwysleisir bod yr holl elfennau isod yn agweddau ar ymwybyddiaeth feirniadol o iaith yn hytrach nag agweddau ar gyfarwyddyd gweithredol. Fe'u cynigir yma nid fel model diffiniol na chynhwysfawr, ond yn hytrach fel cyfraniad at drafod dulliau posibl o ddefnyddio'r hyfforddiant fel sail ar gyfer agor a chynnal disgwrs.

Elfennau craidd

Ar ddechrau'r sesiwn, gall yr hyfforddwr sefydlu yn syth agwedd gynhwysol tuag at drafod yr iaith Gymraeg a dwyieithrwydd. Gallai ddatgan ar y dechrau

fod gan bawb sy'n bresennol, bônt yn siaradwyr Cymraeg neu'n ddi-Gymraeg, yn frodorion neu'n fewnfudwyr, hawl i drafod yr iaith. Maent i gyd yn aelodau o'r gymdeithas sifil yng Nghymru; yn drigolion sy'n cyfrannu trwy drethi at ariannu mentrau iaith lleol a chenedlaethol; yn etholwyr sy'n pleidleisio dros y gwleidyddion fydd yn penderfynu ar bolisi cyhoeddus ar y Gymraeg, ac i gyd yn warcheidwaid yr unig diriogaeth ddaearyddol fechan ar y blaned lle mae'r Gymraeg yn iaith frodorol. Oni sefydlir awyrgylch cynhwysol fel hyn, hwyrach y bydd rhai cyfranogwyr yn teimlo nad oes ganddynt hawl i falio am y Gymraeg. Efallai y teimlant ei bod yn amhriodol rywsut iddynt drafod ei defnydd a'i dyfodol oherwydd nid ydynt yn ddigon gwybodus neu'n ddigon 'Cymreigaidd', neu nad oes ganddynt gysylltiad digon cryf â Chymru o ran cefndir neu berthnasau teuluol, neu nad oes ganddynt ddigon o hyder yn eu sgiliau Cymraeg.

Ail elfen allweddol yw cyflwyno rhywfaint o wybodaeth sylfaenol iawn am ddemograffi'r Gymraeg. Ym mhrofiad sawl hyfforddwr, ni fydd gan y mwyafrif o gyfranogwyr ond syniad annelwig iawn neu ganfyddiadau ystrydebol o bwy yw'r cyhoedd Cymraeg y mae'n ofynnol iddynt eu gwasanaethu. Gellid unioni hyn drwy gyflwyno dadansoddiad cryno iawn o ystadegau'r cyfrifiad diwethaf, gan amlinellu dosbarthiad daearyddol siaradwyr Cymraeg, a niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg fesul ardal a fesul oedran. Yn aml iawn bydd cyfranogwyr yn synnu o glywed bod y Gymraeg yn cael ei siarad gan gynifer o'r boblogaeth ar draws pob oedran ac ym mhob cwr o Gymru. Er enghraifft, gellir nodi bod y cynnydd mwyaf yn nifer y siaradwyr yn yr oedrannau iau ac yn hanner dwyreiniol Cymru, a bod y Gymraeg bellach yn iaith a siaredir fwyfwy gan drigolion ardaloedd trefol, gyda 61 y cant o'r holl siaradwyr Cymraeg yn byw mewn adrannau etholiadol trefol erbyn hyn. Mae cymharu niferoedd â chanrannau siaradwyr Cymraeg yn fodd defnyddiol i ddangos y gall niferoedd fod yn sylweddol hyd yn oed mewn ardaloedd lle maent yn ganran isel o'r boblogaeth. Gall cyfeirio at y ffaith bod Cyfrifiad 2001 wedi cofnodi dros bum mil a hanner o siaradwyr Cymraeg o gefndiroedd ethnig nad ydynt yn 'groenwyn a Phrydeinig' fod yn fan cychwyn defnyddiol i drafod a herio syniadau ystrydebol am Gymreictod a chymunedau Cymraeg.

Mae amlinellu sut mae cysgod hanes wedi effeithio ar beuoedd yr iaith, ar agweddau'r siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd, ac ar drosglwyddiad y Gymraeg o genhedlaeth i genhedlaeth yn ddefnyddiol o ran gosod cynlluniau iaith yn eu cyd-destun hanesyddol priodol. Mae gwybodaeth am 'gymal iaith' Deddf Uno 1536, Brad y Llyfrau Gleision yn 1847 a'r 'Welsh Not' yn aml iawn yn hollol anghyfarwydd neu'n lled gyfarwydd yn unig i gyfranogwyr. O'i chyflwyno iddynt, mae'r wybodaeth yn aml yn ysgogi

cyfranogwyr i fyfyrio am y modd y cafodd defnydd y Gymraeg ei ddarostwng yn hanesyddol a'i gau allan o beuoedd uchelfri. Mae cyfranogwyr sy'n anghyfarwydd â'r penodau hyn yn hanes y Gymraeg weithiau yn mynegi syndod wrth gael gwybod amdanynt. Weithiau mae hyn yn ennyn trafodaeth am eu diffyg gwybodaeth am hanes Cymru. Dengys y sylwadau a gyflwynir gan gyfranogwyr am yr hyfforddiant fod hyn yn elfen rymus iawn ohono, ac yn aml mae'n ennyn cydymdeimlad â'r rhai a ystyrir yn bobl a orthrymwyd yn hanesyddol. Drwy drafod agweddau ar hanes, hybir gwell dealltwriaeth o'r berthynas rym draddodiadol rhwng siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg, dealltwriaeth o beuoedd defnydd iaith a pham mae llawer o siaradwyr Cymraeg heb yr ewylllys neu'r hyder i ddefnyddio eu Cymraeg wrth ymdrin â chyrrff swyddogol. Gall bwrw golwg ar hanes y Gymraeg dros y canrifoedd felly ddangos bod Deddf 1993 yn fan cychwyn proses normaleiddio hirfaith, yn hytrach nag un weithred i normaleiddio sefyllfa'r iaith ar unwaith. Yn y cyddestun hwn gall fod yn haws i staff ddeall pa mor amhriodol yw hi i fesur yr angen am wasanaethau Cymraeg yn ôl y galw neu ddiffyg galw tybiedig.

Bydd cyflwyno gwybodaeth sylfaenol am brif nodweddion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn bwrw goleuni ar bwrpas cynlluniau iaith Gymraeg a swyddogaeth y Bwrdd. Hefyd bydd yn hwyluso trafodaeth am yr egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg 'ar y sail eu bod yn gyfartal' a'r syniad o gynnig dewis iaith, sy'n elfen mor greiddiol o'r canllawiau statudol ar baratoi cynlluniau iaith. Trwy gloriannu'r ddeddf yn gryno gellid trafod natur y ddeddf fel 'deddf alluogol' yn hytrach na ddeddf sy'n diffinio a gwarantu hawliau i'r dinesydd, a swyddogaeth y Bwrdd fel corff hwyluso yn hytrach na chorff gwarchod hawliau.

Mae trafod iaith fel rhan annatod o hunaniaeth unigolyn neu grŵp yn hwyluso dealltwriaeth bod iaith yn llawer mwy nag offeryn cyfathrebu yn unig. Gellir cyfeirio at osodiad D. Crystal: 'Identity is what makes the members of a community recognizably the same. It is a summation of the characteristics which make it what it is and not something else – of 'us' vs 'them' ... Language is the primary index, or symbol, or register of identity' (2000, t. 39–40). Gall trafodaeth am iaith fel un o brif nodweddion hunaniaeth fod o gymorth i egluro bod agweddau ac ymddygiad tuag at iaith yn adlewyrchu hefyd agweddau tuag at siaradwyr yr iaith honno, ac at y diwylliant a fynegir drwyddi.

Yn naturiol ddigon, mae trafod y syniad o drin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 1993, yn arwain at y maes cydraddoldebau ehangach sy'n cael tipyn o flaenoriaeth gan lawer o gyrff cyhoeddus ar hyn o bryd. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 wedi cael ei hystyried fwyfwy fel deddf a berthyn i'r 'teulu' o ddeddfau cydraddoli, ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth ar anabledd, rhyw a hil.

Gwelwyd symudiad o fewn cyrff cyhoeddus tuag at ymgorffori dangosyddion cysylltiedig â gweithrediad cynlluniau iaith Gymraeg ymhlith y dangosyddion mesur cyflawniad parthed gweithredu cynlluniau cydraddoldeb eraill.⁷ Yn sicr, mae cael cyfleoedd i drafod y Gymraeg yn y cyd-destun hwn wedi codi ymwybyddiaeth o'r iaith ym maes rheoli adnoddau dynol ac wedi creu 'porth mynediad' at faterion iaith nid yn unig i swyddogion sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r cydraddoldebau, ond hefyd i swyddogion eraill sy'n gyfarwydd â'r maes hwnnw ac sy'n teimlo empathi tuag ato.

RHAI ELFENNAU DEWISOL Y GELLIR EU CYFLWYNO I GYFRANOGWYR SY'N GWEITHIO MEWN RHAI MEYSYDD PENODOL

Mae a wnelo trafodaeth am y cydraddoldebau â gwerthfawrogi amrywioldeb. Mae darparu HYIG i swyddogion sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol, mewn cyrff gofal iechyd, heddluoedd, gwasanaethau prawf ac asiantaethau gweinyddu cyfiawnder yn fodd i osod materion iaith yng nghyd-destun eu polisiâu ar amrywioldeb. Yn yr un modd, wrth drefnu hyfforddiant i staff ar amrywioldeb, mae rhai cyflogwyr wedi manteisio ar y cyfle i gynnwys modiwl(au) ar yr iaith Gymraeg fel rhan o'r hyfforddiant hwnnw.

Ym maes y gwasanaethau cymdeithasol yn benodol, mae llawlyfrau HYIG gan E. Davies (1994, 2001) a Siencyn (1994) yn anelu at weithwyr cymdeithasol gan bwysleisio bod defnydd priodol o iaith yn elfen hanfodol o ymarfer gwrth-orthrymol (*anti-oppressive practice*) wrth weithio gyda'r cleient. Yn yr un modd, mae E. Davies (1999) yn dynodi arferion ar gyfer 'darparu gwasanaeth dwyieithog sensitif gyda golwg ar sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gweinyddu'r gyfraith', ac mae G. Roberts a C. Williams (2003) yn ymdrin â'r angen i 'hybu ymarfer ieithyddol addas mewn gofal iechyd'. Mae'r deunyddiau hyn wedi eu bwriadu ar gyfer swyddogion proffesiynol ac maent yn gosod arferion defnydd iaith ac agweddau tuag at iaith yn ddiawys yng nghyd-destun y gwerthoedd proffesiynol ac ethegol a arddelir gan eu cynulleidfa darged. Eu thema waelodol, fel y'i mynegir gan Davies (2001, t. 5) yw 'Nid consesiwn yw: sicrhau dewis iaith i ddefnyddwyr ond yn hytrach rywbeth sy'n mynd at wraidd ymarfer da.'

Agwedd arall ar ymwybyddiaeth am yr iaith, ac un allai fod o ddiddordeb arbennig a pherthnasedd arbennig i rai sy'n gweithio mewn meysydd amgylcheddol neu gadwraethol yng Nghymru, yw'r agwedd eco-ieithyddol sydd wedi esblygu dros y blynyddoedd diwethaf. Mae eco-ieithyddiaeth yn

defnyddio'r dadleuon ecolegol dros foamrywiaeth ac yn eu cymhwysu o blaid amrywioldeb ieithyddol. Gellir cyfeirio at ddadleuon a grynhowyd gan Crystal (2000), D. Nettle a S. Romain (2000), K. Hale (1992a, 1992b, 1998) ac eraill yn y cyswllt hwn. Yng nghyd-destun ehangach ieithoedd lleiafrifol ledled y byd, mae Crystal (2000, t. 18–19) yn amcangyfrif bod tua hanner o holl ieithoedd y byd yn debygol o ddiflannu fel ieithoedd llafar neu gyrraedd cyflwr anghuol erbyn diwedd y ganrif hon. Dyma sefyllfa y gellir ei chymharu'n rhwydd â'r bygythiadau byd-eang i ecosystemau, cynefinoedd a rhywogaethau, a'r mesurau a weithredir ar raddfa genedlaethol a chydwladol i'w gwarchod a'u cynnal. O ystyried y Gymraeg yn y cyd-destun hwn, gan gofio cymaint o bryder sydd ymhlith y cyhoedd erbyn hyn am ddyfodol ecosystemau ac am faterion amgylcheddol yn gyffredinol, credir bod modd i'r dadleuon dros warchod a hybu'r Gymraeg ennyn cefnogaeth ymhlith cynulleidfa ehangach o lawer.

Gall trafodaeth am gysyniad Bwrdd yr Iaith Gymraeg o gynnig dewis iaith arwain yn aml at drafodaeth ynghylch darparu gwasanaethau Cymraeg fel ffordd i 'ofalu am y cwsmer'. Mae hyn yn cynnig llwyfan arall i'r rhai sy'n darparu HYIG. Mae'r cysyniad o 'gynnig dewis i ddefnyddwyr' yn un allweddol yn yr economi neo-ryddfrydol, ac mae'r syniad o drin defnyddwyr gwasanaethau fel 'cwsmeriaid' yn un a gofleidir eisoes gan ddiwylliant corfforaethol llawer iawn o gyflogwyr yn y sector cyhoeddus. Wrth weithredu mewn hinsawdd o'r fath, yn aml iawn mae dogfennaeth y Bwrdd a'i gynghorion i gyrff cyhoeddus wedi defnyddio ieithwedd marchnata, gan drin gwasanaethau Cymraeg fel petaent yn 'nwyddau' a anelir at garfan arbennig yn 'y farchnad'. Byrdwn eu dadleuon yn y cyswllt hwn yw mai'r her i gyrff cyhoeddus yw denu'r garfan honno, y 'cwsmeriaid' Cymraeg, drwy ddarparu gwasanaethau Cymraeg – y nwyddau – o safon dda iddynt. Rhaid marchnata'r nwyddau hynny ac ennill ffyddlondeb y cwsmeriaid (y cyhoedd Cymraeg) iddynt wedyn trwy sicrhau 'gofal cwsmer', a thrwy warchod a gwella'n barhaus safon y ddarpariaeth a chynnig dewis go iawn iddynt.⁸ Nid yw'n syndod o gwbl felly fod rhai cwmnïau manwerthu yn y sector preifat wedi mynegi diddordeb mewn trefnu HYIG i'w staff er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o'r agweddau hyn. Bid a fo am y dadleuon ideolegol dros neu yn erbyn defnyddio'r agweddau hyn fel cyfrwng disgwrs ar y Gymraeg, mewn gwirionedd dyma'r hinsawdd y gall fod yn ofynnol i hyfforddwy'r weithredu ynddi yn y Gymru sydd ohoni. Yng nghyswllt y cwmnïau manwerthu mawrion, gall y cysyniadau hyn gynnig cyfleoedd i weithio gyda chyflogwyr a staff na fyddent fel arall ag unrhyw ddiddordeb o gwbl mewn HYIG. Hyd yn oed mewn sefyllfa hyfforddi o'r math hwn, y mae modd codi ymwybyddiaeth am y 'berthynas rym' drwy drafod dulliau o 'rymuso cwsmeriaid'.

Mae ‘prif-ffrydio’ dwyieithrwydd mewn meysydd megis y gwasanaethau cymdeithasol, y sectorau iechyd a gweinyddu cyfiawnder, a threfniadau gofal cwsmer yn dangos elfen bwysig iawn o HYIG effeithiol. Hynny yw pwysigrwydd adnabod y tir cyffredin lle mae modd cynnal deialog a lle gellir agor disgwrs ystyrion. Wedyn gall HYIG effeithiol osod yr iaith Gymraeg yng nghydestun y gwerthoedd corfforaethol neu’r gwerthoedd proffesiynol a arddelir gan y cyfranogwyr, yn ogystal â’i gosod yng nghydestun polisiau presennol a blaenoriaethau cyfredol eu diwylliant busnes.

Fel arfer, cyfunir detholiad o’r elfennau uchod o ymwybyddiaeth feirniadol â thrafodaeth am yr agweddau gweithredol ymarferol ac arferion da – nas trafodir yma – ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog a gweithredu yn unol â dewis iaith y sawl a wasanaethir. Credir bod yr elfennau hyn o ymwybyddiaeth feirniadol yn fodd i sefydlu cyd-ddealltwriaeth dda fydd yn sail ar gyfer cyflwyno agweddau mwy gweithredol i staff.

Y POTENSIAL A’R ANGEN AM EHANGU A DYFNHAU DISGWRS AM Y GYMRAEG TRWY GYFRWNG RHAGLENNI YMWYBYDDIAETH IAITH

Mae’r agweddau a amlinellir uchod yn gymorth i adnabod y ‘pyrth mynediad’ i’r tir cyffredin lle y gellir agor disgwrs rhwng cynllunwyr ieithyddol a chyflogeion cyrff yn y sector cyhoeddus er mwyn hwyluso dwyieithogi’r cyrff hynny. Er nad yw’r rhestr uchod yn un gynhwysfawr, fe ddengys y potensial ar gyfer hybu ymwybyddiaeth feirniadol gynhwysol fel dull i agor disgwrs ar y Gymraeg yn y cyd-destunau a nodir.

Dengys y sylwadau a fynegwyd gan gyfranogwyr mewn sesiynau HYIG sydd wedi cynnwys nifer o’r elfennau uchod nad oedd y mwyafrif ohonynt, cyn derbyn yr hyfforddiant hwnnw, erioed wedi cael y fath gyfle o’r blaen i dderbyn cymaint o wybodaeth ffeithiol am y Gymraeg. Nid oeddent chwaith erioed wedi cael y fath gyfle i drin a thrafod yr iaith a materion cysylltiedig mewn modd mor wrthrychol nac yn y fath ddyfnder. Yn ein profiad ni, gall hyn fod yn wir am y siaradwyr Cymraeg yn eu plith yn ogystal â’r di-Gymraeg.

Mae sylw a thrafodaeth yn y cyfryngau torfol yn ffactor allweddol bwysig mewn sicrhau amlygrwydd ac ymwybyddiaeth eang ynghylch materion iaith. O’i gymharu â’r sylw gaiff materion eraill gan y cyfryngau, megis yr amgylchedd, tor-cyfraith a hiliaeth, mae’r sylw a roddir i faterion yn ymwneud â’r Gymraeg yn gymharol bitw o ran ei faint, ei amllder a’i sylwedd. At hynny, mae dylanwad y cyfryngau Prydeinig, Seisnigaidd iawn eu gogwydd, ar y

mwyafrif o boblogaeth Cymru yn sylweddol drech na dylanwad y cyfryngau Cymreig. Yn yr olaf, mae rhywfaint o obaith y bydd materion o'r fath yn cael eu trafod yn achlysurol o leiaf. Cyfeiria Barlow at ystadegau a drafodwyd gan y Pwyllgor Materion Cymreig yn 1999 yn honni bod 'only 13 per cent of the population read newspapers produced in Wales, and 14 per cent choose not to watch Welsh television' (2005, t. 202). Ychwanega Barlow fod 'this leakage of readers and viewers . . . highlights matters of a democratic nature, particularly if "leakage" is reframed as information deficit' (2005, t. 202).⁹

Yn ogystal â diffygion y disgwrs am y Gymraeg drwy'r cyfryngau torfol, ymhlith llawer o'r boblogaeth ddi-Gymraeg y mae cryn nifer o ddinasyddion a fewnfudodd i Gymru nad ydynt yn uniaethu â'r iaith o gwbl. Dichon y teimlant fod yr iaith yn gwbl amherthnasol iddyn nhw, neu nad oes hawl ganddynt fel mewnfudwyr i gymryd rhan mewn unrhyw ddisgwrs amdani. Mae dadansoddiad J. Aitchison a H. Carter o ystadegau Cyfrifiad 2001 yn ein hatgoffa bod:

just over three quarters of the resident population (2,188,754) were actually born in Wales. At the local authority level values ranged a low of 51 per cent (Flintshire) to a high of 91 per cent (Blaenau Gwent) . . . In Conwy, Denbighshire and Ceredigion the proportion of the respective populations born in Wales is less than 60 per cent (2004, t. 124).

At hynny, bydd llawer o frodorion di-Gymraeg Cymru, hyd yn oed os ydynt yn gefnogol neu'n lled gefnogol o'r Gymraeg, heb lawer o gysylltiad â'r Gymraeg nac ag ymdrechion i'w hyrwyddo. Mewn gweithleoedd ar hyd a lled Cymru rydym wedi cyfarfod â llawer o bobl ddi-Gymraeg, yn frodorion ac yn fewnfudwyr, nad yw'r Gymraeg yn gyfarwydd iawn iddynt a phrin iawn y mae'n berthnasol i'w bywydau personol o gwbl. I lawer sy'n gyflogedig yn y sector cyhoeddus, gall eu cysylltiad pennaf â'r iaith fod yn deillio o'r ffaith bod eu cyflogwyr yn gweithredu cynllun iaith. Bydd llawer wedi sylwi hefyd ar y cynnydd mewn Cymraeg gweladwy dros y degawd diwethaf, ar arwyddion cyhoeddus, mewn dogfennau swyddogol, yn y cyfryngau neu mewn deunydd marchnata; bydd eraill efallai yn cefnogi ac yn helpu eu plant neu eu hwyrion i ddysgu Cymraeg yn yr ysgol. Er bod y graddau hyn o gysylltiad â'r Gymraeg yn amrywio ac yn bwysig iawn o ran normaleiddio presenoldeb y Gymraeg mewn peuoedd y cafodd ei chau allan ohonynt gynt, i lawer iawn o bobl prin eu bod yn fwy na graddau isel iawn o ymwneud goddefol â'r iaith.

Mae hyn i'w wrthgyferbynnu'n gryf ag amcan uchelgeisiol *Iaith Pawb*, 'Cynllun gweithredu cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru ddwyieithog', sef creu 'Cymru gwbl ddwyieithog, sef gwlad lle y gall pobl ddewis byw eu bywydau naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg

neu'r ddwy iaith a lle mae bodolaeth y ddwy iaith yn fater o falchder a chryfder i ni i gyd' (LICC, 2003, t. 1). Wrth nodi pwysigrwydd y strwythurau a'r mesurau a gynigir yn y cynllun, mae'r cynllun yn cydnabod:

Ni allwn orbwysleisio pwysigrwydd cyfraniad cyrff eraill – yn awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus, y sectorau preifat a gwirfoddol. Ond yn y pen draw, os yw'r iaith i oroesi rhaid i unigolion gymryd perchnogaeth ohoni – sy'n golygu cael pobl i gymryd rhan mewn mentrau cymunedol i hyrwyddo'r iaith, rhieni'n trosglwyddo'r iaith i'w plant ac unigolion yn ymroi i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ac mewn busnes. Nid oes gennym unrhyw amheuaeth fod dyfodol cadarnhaol i'r Gymraeg os bydd pobl Cymru yn rhannu ein gwel-edigaeth (2003, t.53).

Y cwestiynau amlwg a gyfyd o'r datganiad hwn yw sut yn union y bydd y Gymraeg yn datblygu'n destun 'balchder a chryfder i ni i gyd'? Sut yn union mae 'cael pobl i gymryd rhan mewn mentrau cymunedol i hyrwyddo'r iaith' a 'rhannu ein gweledigaeth'? Ac ers cyhoeddi *Iaith Pawb*, pa gamau ychwanegol a gymerir er mwyn symud ymlaen o'r sefyllfa bresennol tuag at wireddu'r amcanion hyn drwy Gymru benbaladr? O gofio pa mor eang ac uchelgeisiol yw'r amcanion hyn, gellid dadlau mai un agwedd allweddol bwysig er mwyn gwireddu amcanion *Iaith Pawb* yw i ba raddau mae'r mwyafrif o ddinasyddion Cymru yn cael eu cynnwys a'u hysgogi gan wahanol fathau o ddisgwrs ystyrion ynghylch gwerth a phwysigrwydd cynnal ac adfywio iaith a datblygu siaradwyr newydd.

Mae hyn yn ein harwain i ystyried swyddogaeth ymwybyddiaeth iaith nid yn unig ar y ffurf a drafodir uchod, sef fel math o hyfforddiant ar gyfer gweithluoedd sy'n gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg, ond mewn cyd-destun ehangach o lawer. Gallai fod yn sylfaen angenrheidiol ar gyfer meithrin yr hyn a ddisgrifiwyd gan C. Williams fel 'the fledgling doctrine of inclusive bilingualism for all' a fynegir yn *Iaith Pawb* (2004, t. 2). Pwysleisia'r un awdur bwysiced yw 'the response of the English speaking majority to the declared targets [of *Iaith Pawb*], which are to be realized over ten years', ac mae'n ein hatgoffa 'if *Iaith Pawb* is serious in its mission, the non-Welsh-speaking portion [of the Welsh population] comprises some 80 per cent of the 'everyone' (pawb) who counts in Wales' (Williams, 2004, t. 7). Mae Williams a Morris (2000, t. 233–4) wedi dadlau:

The goal of any language planning must be to dispute monolingual hegemonies through reinstitutionalizing and religitimizing minority language use. It must involve recognizing these hegemonies through constructive reflexivity. It also involves undoing the effect of hegemonic discourses upon the population in

general, not merely the Welsh speaking population, but also those who do not speak Welsh, if this process is to be of relevance to Wales as a whole.

Yn y cyd-destun hwn, gellir ystyried hyrwyddo ‘ymwybyddiaeth feirniadol o iaith’, fel y’i disgrifiwyd yn gynharach, fel modd i agor gwahanol fathau o ddisgwrs cynhwysol a berthyn i’r agenda cynllunio ieithyddol ehangach hon.

Sut y gellid hyrwyddo ymwybyddiaeth feirniadol o’r fath ar raddfa fawr? O’u hailddechongli rywfaint, gallai argymhellion Dafis et al. (2005, t. 3–5) yn eu hadroddiad i ELWa fod yn fan cychwyn ar gyfer ymgymryd â’r dasg hon. Hyd y gwelwn ni mae’r adroddiad ei hun yn defnyddio’r term ymwybyddiaeth iaith mewn modd nad yw’n gwahaniaethu’n ddigonol rhwng agweddau ar ymwybyddiaeth feirniadol o iaith a’r agweddau eraill, anfeirniadol, megis canllawiau gweithredu ymarferol ar gyfer staff. Gan fod yr olaf ar ffurf cyfarwyddiadau neu arweiniad, nid ydynt yn cynnig fawr o gyfle i agor disgwrs. Fodd bynnag, o ail-ddechongli defnydd Dafis o’r term ‘ymwybyddiaeth iaith’ yn yr argymhellion a ddyfynnir isod, a’i ddechongli yn hytrach i olygu ymwybyddiaeth feirniadol o iaith, buan y daw’r posibilïadau addawol yn amlwg.

Yn ogystal â chynnig rhaglen o broffesiynoli, a chredu a chynllunio darpariaeth HYIG yn strategol a chynyddu niferoedd yr hyfforddwyd cymwys i ateb y galw presennol a’r galw yn y dyfodol, mae’r adroddiad yn argymhell prif-ffrydio ymwybyddiaeth iaith nid yn unig yn y gweithle ond, hefyd, yn arwyddocaol iawn, yn y gymuned, mewn addysg ac yn y proffesiynau.

Yn y Gymuned

Argymhelliad 3: dylai ELWa gynnull gweithgor i ystyried hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn y gymuned ymhellach, gyda’r nod o arbrofi gyda dulliau a grwpiau targed gwahanol.

Mewn Addysg

Argymhelliad 4: dylai’r awdurdodau perthnasol* sicrhau bod ymwybyddiaeth iaith yn cael ei gynnwys fel elfen o bob cwrs coleg perthnasol, a’i ddisgrifio’n glir yng nghynllun iaith a phrosiectws pob coleg.

Argymhelliad 5: dylai’r awdurdodau perthnasol* sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei arolygu [*sic*] a’i adolygu [*sic*] fel rhan o’r trefniadau goruchwyllo a geir dan ddeddfau addysg a Deddf yr Iaith Gymraeg.

Argymhelliad 6: dylai’r awdurdodau perthnasol* hyrwyddo trefn i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith addas i diwtoriaid a darlithwyr.

Argymhelliad 7: dylai’r awdurdodau perthnasol* gyd-hyrwyddo camau i

gynnwys ymwybyddiaeth iaith fel elfen o gymhwysio proffesiynol mewn meysydd lle mae'n berthnasol i lwyddiant y swydd neu'r gweithgaredd.

[*ELWa, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ESTYN a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, fel sy'n gymwys.]

Dyma raglen uchelgeisiol ar gyfer maes na fu'n destun unrhyw ymdriniaeth o bwys yn yr un o brif ddogfennau strategaeth Bwrdd yr Iaith ers ei sefydlu, na chwaith yn *Iaith Pawb*. Hyd yn oed o dan y trefniadau presennol, mae HYIG ar ryw ffurf neu'i gilydd wedi cyrraedd ychydig filoedd efallai o'r niferoedd a gyflogir yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae ganddo'r potensial (ond nid digon o hyfforddwyr ar hyn o bryd) i allu cyrraedd degau o filoedd o rai eraill yn y pen draw. Ers rhai blynyddoedd bellach, mae rhai ymarferwyr yn ymwybodol y gallai HYIG, o'i gynllunio a'i ddatblygu yn ofalus a'i brif-ffrydio mewn meysydd megis y rhai a awgrymir gan Dafis et al. uchod, gynnig cyfle na fu erioed ei debyg i gynllunwyr iaith agor disgwrs â'u cyd-ddinasyddion am ddyfodol y Gymraeg. Am y rheswm hwn, mae'r dadleuon a gyflwynir yma o blaid ymwybyddiaeth feirniadol o iaith yn ddadleuon mewn gwirionedd dros bwysigrwydd disgwrs yn hytrach na chyfarwyddyd yn y broses adfywio iaith.

Mae'r argymhellion a ddyfynnir uchod yn tynnu sylw hefyd yn anunion-gyrchol at y diffyg ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg ymhlith gwneuthurwyr polisiâu allweddol yng Nghymru. Er enghraifft, ym maes addysg uwch, cynigia argymhelliad 6 uchod y dylid 'hyrwyddo trefn i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith addas i diwtoriaid a darlithwyr'. Ar hyn o bryd, ymddengys bod amryw o'r academyddion allweddol a wna benderfyniadau polisi pellgyrhaeddol sy'n effeithio ar ddyfodol addysg cyfrwng Cymraeg yn ein prifysgolion a'n colegau heb gael cyfle i gyfranogi o ddisgwrs ystyrion am gyfraniad addysg uwch tuag at wireddu amcanion *Iaith Pawb* yn benodol, nac am swyddogaeth addysg uwch yng nghyd-destun adfywiad y Gymraeg yn fwy cyffredinol. Gellid cyfeirio at nifer o feysydd polisi allweddol eraill lle, yn ôl ein profiad ni, mae lefelau ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg yn isel iawn. Mae hyn er gwaetha'r datganiad yn *Iaith Pawb* 'y bydd ein hymrwymiad i roi'r iaith yn y brif ffrwd yn sicrhau y bydd ystyriaeth o faterion yn ymwneud â'r Gymraeg yn treiddio trwy'r gwaith o lunio polisiâu a chyflwyno rhaglenni sefydliadau ledled Cymru' (LICC, 2003, t. 53). Gellid dadlau bod y diffygion hyn yn tynnu sylw at y bwch ym maes polisi cyhoeddus rhwng yr hyn a fynegir yn *Iaith Pawb* ar y naill law, ac ymwybyddiaeth, agweddau a gweithrediad gwneuthurwyr polisi ac ymarferwyr ar y llaw arall. Mae'n ddigon amlwg felly, fod yna lawer o le i drin a thrafod argymhellion adroddiad Dafis yn helaethach.

Mae cyfle i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ymateb yn fentrus ac yn ddychmygus i'r argymhellion hynny. Yn ystod haf 2006 cafwyd ymateb cychwynnol y

Bwrdd iddynt ar ffurf y fersiwn drafft cyntaf o'i Strategaeth Ymwybyddiaeth Iaith, dogfen a fu'n destun ymgynghoriad cyfyngedig (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2006). Dichon y bydd y fersiwn drafft wedi ei ddiwygio a'i droi'n fersiwn drafft cyhoeddus cyn i'r erthygl yma ymddangos. Yn naturiol, gellir disgwyl y bydd y Bwrdd am gymhwyso llawer o'r syniadau a'r argymhellion am y maes hwn i hwyluso a chryfhau gweithrediad cynlluniau iaith Gymraeg, oherwydd dyna brif genhadaeth y Bwrdd. Da o beth fodd bynnag fyddai i'r Bwrdd gadw golwg yn ogystal ar y 'darlun mawr' a'r weledigaeth ehangach a amlinellwyd yn fras gan Dafis et al. (2005).

Yn ôl y cyfeiriadau at y pwnc hwn yn nogfennau blaenorol y Bwrdd, ymddengys bod yna duedd i ddehongli HYIG fel dull mecanistaidd o ddylanwadu ar agweddau tuag at y Gymraeg. Y dybiaeth a awgrymir yw fod newid agweddau yn fodd mecanistaidd i newid ymddygiad, er bod Williams a Morris yn ein hatgoffa 'If there is any lesson to be learnt from the entire body of work devoted to attitudes it is that it is not possible to change behaviour by changing attitudes' (2000, t. 207).

Mewn dogfennau eraill gan y Bwrdd, mae'r termau ymwybyddiaeth iaith a marchnata yn cael eu defnyddio bron fel petaent yn dermau cyfystyr. Un o'r amcanion a nodir yn ei ddogfen strategaeth gyntaf yw 'marchnata'r iaith er mwyn newid agweddau, magu hyder siaradwyr Cymraeg, neu wella delwedd yr iaith' (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1996, t. 2, para.2.3). Ymddengys yn ôl ieithwedd dogfennau'r Bwrdd fod cyfranogwyr HYIG yn cael eu hystyried yn gynulleidfa darged oddefol – tebyg i gynulleidfa darged ei negeseuon marchnata – yn hytrach na'u hystyried yn ddarpar gyfranogwyr mewn disgwrs cynhwysol.

Mae potensial HYIG yn gofyn am weledigaeth ehangach o dipyn. Mae Williams a Morris wedi disgrifio prif amcanion cynllunio ieithyddol yng Nghymru fel a ganlyn:

The goal of any language planning must be to dispute monolingual hegemonies through reinstitutionalizing and religitimizing minority language use. It must involve recognizing those hegemonies through constructive reflexivity. It also involves undoing the effect of hegemonic discourses upon the population in general, not merely of the Welsh speaking population, but also of those who do not speak Welsh, if this process is to be of relevance to Wales as a whole (2000, t. 233–4).

Mae perthnasedd hybu ymwybyddiaeth feirniadol o iaith i'r dasg o wireddu'r amcanion hyn yn amlwg ddigon.

Mae'n amlwg hefyd fod yna oblygiadau llawer ehangach i'r broses a ddisgrifir yn yr amcanion hyn. Mae'n broses sydd yn ein harwain i ailddehongli rhai

agweddau ar hanes Cymru, gan gyfrannu hefyd at y disgwrs cyfredol ynghylch agweddau ar hunaniaeth Gymreig yn y cyfnod ôl-ddatganoli.

Elfen bwysig a chyfochrog yn y disgwrs cyfredol hwnnw yw'r weledigaeth sydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (2000) am adfywio'r gymdeithas sifil yng Nghymru a'i hymwneud â phrosesau gwleidyddol Cymreig. Yr her i'r Cynulliad, fel y'i crynhoir gan Barlow, yw 'the task of creating a "new" Wales in which communities will be regenerated, civil society reinvigorated, active citizenship encouraged and young people more engaged in the political process' (2005, t. 209). Er mwyn annog dinasyddion i gyfranogi, cyfrannu ac ymagweddu'n bositif at fywyd gwleidyddol Cymru, rhaid hybu'r syniad o ddinasyddiaeth Gymreig sy'n cydnabod ac yn uniaethu â Chymru fel endid gwleidyddol datganoledig. Fel yn y maes cynllunio iaith, mae proses uniaethu o'r fath yn gofyn am 'undoing the effect of hegemonic discourses', nid yn unig o fewn y pau gwleidyddol, ond hefyd drwy'r gymdeithas sifil yn gyffredinol.

CASGLIAD

Gall HYIG gyfrannu'n sylweddol at wireddu'r amcan cynllunio ieithyddol o 'undoing the effect of hegemonic discourses'. Ni ellir cyfyngu perthnasedd yr amcan hwnnw i'r cyd-destun cynllunio ieithyddol yn unig. Ynghlwm yn y broses gyfredol o gyfreithloni'r Gymraeg yw'r angen i ddadgyfreithloni'r gwerthoedd, strwythurau ac ymddygiad a gyfrannai at ddiffyg bri'r diwylliant Cymraeg a'r hunaniaeth Gymreig. Er mai ystyriaethau cynllunio ieithyddol yw man cychwyn proses o'r fath felly, mae'r broses o reidrwydd yn gofyn inni ailystyried ac aildehongli yn ehangach y perthnasau grym fu ar waith yn hanes Cymru ac sydd ar waith o hyd yn y Gymru gyfoes. Yn yr ystyr hon, gellir dehongli'r disgwrs ar adfywiad y Gymraeg fel rhan annatod o'r broses gyfredol ehangach o ailddiffinio gwleidyddiaeth, hunaniaeth a dinasyddiaeth Gymreig yn y cyfnod ôl-ddatganoli. Mae datblygu ymwybyddiaeth feirniadol a myfyriol o berthynas iaith â grym, a hynny ar bob lefel o'r gymdeithas sifil, yn rhan hanfodol felly o broses creu'r Gymru newydd.

CYDNABYDDIAETH A NODYN

Dadansoddiad a barn yr awdur a geir yn yr erthygl hon, ac nid yw o reidrwydd yn fynegiant o safbwyntiau corfforaethol Cwmni Iaith, oni nodir hynny.

Dymuna'r awdur ddiolch yn fawr i Gareth Ioan, yr Athro Colin Williams, Dr Elin Royles a'r canolwyr di-enw am fwrw golwg dros fersiwn drafft yr erthygl hon a chynnig sylwadau gwerthfawr a defnyddiol arni.

NODIADAU

- ¹ Cyhoeddodd Deddf 1536 mai'r Saesneg fyddai iaith y llysoedd barn yng Nghymru a 'frome hensforth no persone or personnes that use the Welsshe speche or langage shall have or enjoy any maner office or fees within the Realme of Englonde Wales or other the Kinges dominions upon peyn of forfeiting the same offices or fees onles he or they use and exercise the speche or langage of Englisshhe' (dyfynnir yn J. Davies, 1999, t. 21) Parhaodd 'cymal iaith' (adran 17) Deddf Uno 1536 ar y llyfr statud hyd nes ei ddiwygio gan adran 1 Deddf Llysoedd Cymru 1942.
- ² Am orolwg beirniadol o'r sefyllfa parthed maes addysg uwch yng Nghymru, gweler Wyn Jones (2004).
- ³ Dylid nodi fodd bynnag, er i Ddeddf 1993 roi hwb sylweddol i ddatblygiad HYIG, roedd yr angen am y math hwn o hyfforddiant eisoes wedi ei gydnabod a rhai deunyddiau hyfforddi eisoes wedi eu datblygu ychydig cyn gweithrediad Deddf 1993, gan ymarferwyr ym maes gofal cymdeithasol yn bennaf. Cyflawnwyd gwaith arloesol ar ddechrau'r 1990au, gan ystyried gwahanol agweddau ar y defnydd o'r Gymraeg yn y berthynas rym rhwng darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol a chleientiaid (gw. Rh. Williams, H. Williams a E. Davies (1994) a S. Siencyn (1994)). Y drafodaeth ynghylch y berthynas rhwng iaith a grym oedd prif echel y gwaith hwnnw.
- ⁴ Bu cryn gydwethio hefyd. Daeth yr unigolion hyn at ei gilydd, ynghyd ag ymarferwyr eraill mwy diweddar, o dan ysgrifenyddiaeth Cwmni Iaith, i geisio hyrwyddo cymdeithas o ymarferwyr; rhannu adnoddau, arbenigedd a phrofiad; datblygu hyfforddwy newydd a deunyddiau newydd a datblygu'r dadleuon deallusol dros gyfraniad HYIG at faes cynllunio iaith, yn ogystal â'r 'achos busnes' drosto. Cytunwyd ar yr amcanion hyn mewn nifer o gyfarfodydd a gynhelid gan Gwmni Iaith i ymarferwyr profiadol HYIG rhwng 1998 a 2000 a chynhaliwyd cyfarfod agored i ymarferwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod yn 2003. Yn ystod y cyfnod hwnnw bu ymarferwyr yn annog Bwrdd yr Iaith Gymraeg i fabwysiadu agwedd gynlluniedig a strategol tuag at gefnogi datblygiad HYIG. Dadleuwyd er enghraifft y dylid sefydlu cymdeithas broffesiynol i ymarferwyr a chynllun hyfforddi hyfforddwy newydd. Yn fwy diweddar, mae casgliadau adroddiad Dafis et al. i ELWa o blaid camau tebyg: 'Argymhelliaid 12: Dylid hyrwyddo cymdeithas broffesiynol ar gyfer y maes, gyda chyfansoddiad ac amcanion addas ar gyfer datblygiad y proffesiwn, gan gynnwys rhoi cyfrwng i'r ymarferwyr rwydweithio a rhannu profiadu, i safoni a chysoni arfer, ac i hyrwyddo a gwarchod buddiannau'r maes' (2005, t. 4).
- ⁵ Yn benodol, tynnir sylw swyddogion iaith yn aml at enghreifftiau o ddiffyg galw ar ffurf amharodrwydd ymddangosiadol llawer o siaradwyr Cymraeg i fanteisio ar y ddarpariaeth sydd bellach ar gael iddynt yn Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys y fersiynau Cymraeg o ffurflenni, dogfennau a chyhoeddiadau, a

chyfleoedd i siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb â swyddogion unigol neu mewn cyfarfodydd cyhoeddus lle mae gwasanaeth cyfieithu-ar-y-pryd ar gael i bobl ddi-Gymraeg. Cyfeirir hefyd yn aml at gyn lleied o gwynion a dderbynnir am ddiffygion gwasanaethau Cymraeg

- 6 Enghreifftiau o'r meysydd lle mae uwchreolwyr yn gwneud penderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar y modd y trinnir y Gymraeg mewn sefydliadau yw'r penderfyniadau ynghylch cyllideb a threfniadau ar gyfer cyfieithu testunau a chyfieithu ar y pryd; penodi swyddog i fod yn gyfrifol am hyrwyddo'r cynllun iaith; pennu adnoddau a thargedau ar gyfer hyfforddiant Cymraeg a lleadaenu HYIG drwy rengoedd y rheolwyr canolradd ac ymhlith y staff rheng flaen. Yn fwy cyffredinol, gallai'r canlyniadau a geisir wrth hyfforddi uwchreolwyr a rheolwyr canolradd fod yn ymwneud â phrif-ffrydio defnydd y Gymraeg ym meysydd cynllunio strategol a chynllunio gwasanaethau; cynllunio cyllidebau; cynllunio systemau (e.e. technoleg gwybodaeth a chyfathrebu); safonau gwasanaeth a threfn rheoli adnoddau dynol y corff, gan gynnwys trefniadau recriwtio a phenodi staff, rhaglenni hyfforddi staff a'r rhaglen gydraddoldebau.
- 7 Mae hyn i'w weld yn arbennig ym maes llywodraeth leol, lle mae'r 'cydraddoldebau statudol' parthed hil, rhyw, anabledd a'r Gymraeg wedi eu dwyn ynghyd i greu safon gydraddoldeb gyfunol a ddatblygwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2002) ar y cyd â'r cyrff statudol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r meysydd hyn. Bellach mae'n ofynnol i awdurdodau lleol weithio tuag at gyrraedd y safon hon drwy basio meini prawf penodol am eu gwaith ym mhob un o'r meysydd cydraddoldeb dan sylw.
- 8 Am drafodaeth ynghylch yr hyn a ddisgrifir gan yr awduron yn 'commodification of Welsh' gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, gweler Williams a Morris (2000, t. 191–2).
- 9 Mae mater y diffyg gwybodaeth a'r diffyg disgwrs trwy'r cyfryngau (y 'media / information deficit') yn un y bu cryn drafod arno yn ystod y cyfnod yn union cyn y referendwm ar ddatganoli yn 1997 ac ers hynny. Rhan o'r drafodaeth honno oedd i ba raddau y mae dinasyddion Cymru yn ymddiddori, neu'n debygol o ymddiddori, yn strwythurau, prosesau a pholisïau'r llywodraeth ddatganoledig a'r pleidiau gwleidyddol Cymreig. Ar orffennaf 11^{eg} 2006, cafwyd adroddiad yn y *Daily Post* am gynnig a gyflwynwyd gan dri Aelod Seneddol Plaid Cymru, 'that this House is concerned that the BBC is failing the countries of the United Kingdom by offering London-centric six o'clock news coverage'. Nododd yr adroddiad fod 'Plaid Cymru MPs were joined by Scottish National Party colleagues in calling for the BBC to create separate Welsh and Scottish six o'clock bulletins'. Am drafodaeth bellach ynghylch agweddau ar y diffyg gwybodaeth a diffyg disgwrs trwy'r cyfryngau, gweler Barlow (2005).

CYFEIRIADAU

- Aitchison, J. a Carter, H. (2004). *Spreading the Word – the Welsh Language 2001*, Tal-y-bont: Y Lolfa.
- Baker, C. a Jones, S. P. (1998). *Encyclopedia of Bilingualism and Bilingual Education*, Clevedon: Multilingual Matters.

- Barlow, D. M. (2005). 'What's in the "Post"?' Mass media as a site of struggle', yn J. Aaron a C. Williams (goln), *Postcolonial Wales*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1996a). *Cynlluniau Iaith Gymraeg – eu Paratoi a'u Cymeradwyo yn Unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*, Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1996b). *Strategaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg*, Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2006). *Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith – Strategaeth Ddrafft*, Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Dogfen ymgynghorol anghyhoeddedig.
- Crystal, D. (2000). *Language Death*, Cambridge: Cambridge University Press.
- Cwmni Iaith (2004). *Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith: Tystiolaeth i Ymarferiad Ymchwil ELWa*. Papur anghyhoeddedig.
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2000). www.betterwales.com, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2002). *Safon Cydraddoldeb ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru*, Caerdydd: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Dafis, Rh., Roberts, D. B., Phillips, D. a Miller, A. (2005). *Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith – Arolwg i ELWa*, Caerdydd: ELWa.
- Davies, D. (2000). 'Arwyddocâd yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn y gwasanaethau gofal iechyd', *Siarad yr Anweledig – Trafodion Cynhadledd Diwylliant, Hunaniaeth a Seiciatreg*, Caerdydd: GIG Cymru.
- Davies, E. (1994). 'They All Speak English Anyway' – *Yr Iaith Gymraeg ac Ymarfer Gwrth-orthrymol*, Caerdydd: CCETSW Cymru.
- Davies, E. (1999). 'Iaith mewn Gwasanaeth Gofalgar' – *Canllaw ar Ddarparu Gwasanaeth Dwyieithog Sensitif, gyda Golwg ar y Sectorau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gweinyddu'r Gyfraith*, Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Davies, E. (2001). 'They All Speak English Anyway' 2 (*Pecyn Gweithdy Undydd*) — *Yr Iaith Gymraeg ac Ymarfer Gwrth-orthrymol*, Caerdydd: CCETSW Cymru.
- Davies, J. (1999). *The Welsh Language*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Donmall, B. G. (gol.) (1985). *Language Awareness*, London: Centre for Information on Language Teaching and Research (CILT).
- Fanon, F. (1970). *Black Skin, White Masks*, London: Paladin Books.
- Freire, P. (1996). *Pedagogy of the Oppressed*, London: Harmondsworth: Penguin.
- Greensale, L. (1992). 'White skin, white masks: psychological distress among the Irish in Britain', yn O'Sullivan, P. (gol.) *The Irish in New Communities*, Leicester: Leicester University Press.
- Hale, K. (1992a). 'On endangered languages and the safeguarding of diversity', *Language*, 68, 1–3.
- Hale, K. (1998). 'An endangered language and the importance of linguistic diversity', yn C.A. Greenable a Whaley (gol.) *Endangered languages: current issues and future prospects*, Cambridge: Cambridge University Press.
- Hale, K. (1992b). 'Language endangerment and the human value of linguistic diversity', *Language*, 68, 35–42.
- HMSO (1993). *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*, London: HMSO.
- Ioan, G. (1998). 'Law yn Llaw/Hand in Hand' – *Pecyn Hyfforddiant ar Reoli yn y Gweithle Dwyieithog*, Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

- Jenkins, G. H. (gol.) (1997). *The Welsh Language before the Industrial Revolution*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Kenny, V. (1985). 'The post-colonial personality', *Crane Bag*, 9, 70–8.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003). *Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Nettle, D. and Romain, S. (2000). *Vanishing Voices – the Extinction of the World's Languages*, Oxford: Oxford University Press.
- Roberts, G. a Williams, C. (2003). '*Gair o Gysur*' – *Hybu Ymarfer Ieithyddol Addas mewn Gofal Iechyd*, Bangor: Prifysgol Cymru, Bangor.
- Siencyn, S. W. (1994). '*Sain Deall*' – *Cyflwyniad i Ymwybyddiaeth Iaith*, Caerdydd: CCETSW Cymru.
- Welsh Select Affairs Committee (1999). *Broadcasting in Wales and the National Assembly*, London: House of Commons.
- Williams, C. H. (2004). '*Iaith Pawb*: the doctrine of plenary inclusion', *Contemporary Wales*, 17, 1–27.
- Williams, G. a Morris, D. (2000). *Language Planning and Language Use – Welsh in a Global Age*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Williams, Rh. H., Williams, H. a Davies, E. (goln) (1994). *Social Work and the Welsh Language*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Wyn Jones, R. (2004). *Methiant Prifysgolion Cymru: Darlith Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd*, Caerdydd: Sefydliad Materion Cymreig.